POLISI PERTHNASOEDD

Ym mhob un o bolisïau yr ysgol fe anelwn at gyflawni nodau ac amcanion fframwaith saith nod Craidd Hawliau Gweithredu Pobl Ifanc Cymru.

“DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD”

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd rydym am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a’i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a’u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy’n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a’u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a’u cyrff ac fe fydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yw darparu cyfleoedd i bob plentyn brofi addysg ragorol academaidd, emosiynol a chymdeithasol.

Tri nod perthnasoedd cadarnhaol yw:

1. bod y disgyblion a’r staff yn barod i ddysgu.

2. parchu'r holl fyfyrwyr, y staff a'r amgylchedd.

3. meithrin balchder yn ein hunain a'n hamgylchedd.

Bydd rhain yn cael eu cyflawni drwy hybu perthnasoedd cadarnhaol rhwng:

Disgybl a disgybl
Rhiant a Disgybl
Disgybl a Staff
Rhiant/Gofalwr a staff
Staff a staff
Staff yr ysgol ac uwch arweinwyr
Disgyblion, Staff, a'r gymuned ehangach

Yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, byddwn yn mabwysiadu **YMAGWEDD ADFEROL** at reoli perthnasoedd.

Beth yw ystyr 'dull adferol'?

1. Mae bod yn adferol yn golygu ein bod yn ymateb i ymddygiad heriol mewn modd ystyriol ac ystyrlon.
2. Mae bod yn adferol yn golygu ein bod yn gofyn i bob disgybl ac aelod o staff fod yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain a derbyn canlyniadau eu gweithredoedd.
3. Mae bod yn adferol yn golygu ein bod yn gwerthfawrogi perthnasoedd cryf, cadarnhaol rhwng staff a disgyblion, disgyblion a'u cyfoedion a rhieni/gofalwyr. Byddwn bob amser yn ymdrechu i atgyweirio perthnasoedd sydd wedi'u difrodi trwy gynnal sgyrsiau ayb.
4. Mae bod yn adferol yn golygu ein bod yn parhau gyda'n safonau uchel mewn modd sy'n adfer ac yn cynnal y berthynas sy'n bodoli rhwng yr unigolion.

Bydd gwaith i atal ymddygiadau gwael neu unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â rhagfarn yn cael ei ymgorffori yn y cwricwlwm yn ogystal ag wythnosau penodol e.e. wythnos gwrthfwlio.

Bydd creu amgylchedd sy'n annog ymddygiad cadarnhaol ac sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad annerbyniol, trwy ddilyn ein camau gweithredu a siarad gyda rhieni/gofalwyr, a chyfeirio at ein gwerthoedd ysgol (Parch, Cymreictod, Dyfalbarhab) yn helpu i greu amgylchedd gynhwysol a deniadol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu.

Byddwn yn ymateb i ymddygiad heriol gan ddefnyddio systemau ysgol yn gyson. Mae ymateb i ymddygiad heriol yn gyfrifoldeb ar bob aelod o staff, tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg bob amser yn disgwyl agwedd deg a chyson gan yr holl staff. Os na fydd disgybl yn ymateb i gyfarwyddiadau staff yna rhaid i staff ddilyn systemau a gweithdrefnau'r ysgol bob amser.

CWRICWLWM I GYMRU

Mae Cwricwlwm i Gymru yn nodi 4 diben ar gyfer y cwricwlwm. Mae'n nodi y dylai'r cwricwlwm ysgol gyfan gael ei gynllunio i helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes
- gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd, sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, i wireddu'r uchod, byddwn yn:

- sicrhau bod disgyblion yn gwybod y gallant drafod materion gydag aelod o staff
- sicrhau ein bod yn gwrando ar ein disgyblion
- sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol i bob disgybl sy'n mynegi pryder.

Yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg byddwn yn:

- mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, parchus rhwng staff a dysgwyr fel rhan o'n hymagwedd ysgol gyfan at lesiant – bydd y dull hwn yn cael ei blethu drwy holl weithgarwch yr ysgol
- creu amgylchedd sy'n annog ymddygiad cadarnhaol ac sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad annerbyniol - bydd hyn yn helpu i greu amgylchedd cynhwysol a deniadol lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu
- addysgu plant a hyfforddi staff am barch, ymddygiad cadarnhaol, ystradebau a mynd i'r afael â rhagfarn
- darparu hyfforddiant a datblygiad staff a hyfforddi yn y grefft o wrando, deialog, empathi a dealltwriaeth dda
- byddwn yn ceisio peidio â gosod y disgyblion mewn sefyllfaoedd sy'n eu corddi/corneli. Byddwn yn ceisio sicrhau bod ein hymateb i'w hymddygiad ac yn aml ymddygiadau heriol yn gefnogol ac yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gefnogi
- meithrin hyder i alluogi herio ac ymdrin ag iaith annerbyniol
- cyfleu neges glir o ymddygiad cadarnhaol, caredigrwydd, teyrngarwch ac ysbryd tîm

Yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg byddwn yn:

- canfod barn plant, pobl ifanc a staff yn rheolaidd am eu perthnasoedd yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol
- sicrhau bod ein polisi perthnasoedd cadarnhaol yn adlewyrchu dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma (TISUK) a bod ein strategaethau ymddygiad yn seiliedig ar ddatblygiad a thrawma. Nid ydym yn gweithredu ymateb 'dim goddefgarwch' ac rydym yn cydnabod y bydd angen addasu oherwydd natur ac anghenion personol unigolyn, fodd bynnag, mae gennym ddisgwyliadau uchel o ymddygiad i bawb a chynigir cymorth i'r rhai sy'n cael anhawster i fodloni'r disgwyliadau hynny.
- sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i fynegi ac adrodd am bryderon a phryderon sy'n effeithio arnynt gartref neu yn yr ysgol
- sicrhau fod pob disgybl yn ymwybodol o'r ystod o sancsiynau y gellir eu gosod yn erbyn y rhai sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau sy'n niweidio perthnasoedd
- cynnwys disgyblion mewn ymgyrchoedd hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol mewn ysgolion
- rhoi cyhoeddusrwydd i fanylion llinellau cymorth a gwefannau defnyddiol.

RELATIONSHIPS POLICY

In all school policies we aim to complete the seven core aims and objectives of the Rights to Action Agenda for the Young People of Wales.

"PUT YOUR HAND IN MINE AND WE WILL GO TO THE MOUNTAIN TOP"

By co-operating and trusting each other we aim to ensure that every pupil reaches the top of their ability and talents. We shall do this by offering opportunity, support and guidance within a positive, open-minded, safe and civilised society.

Our vision for our pupils

We seek pupils who are fluent in Welsh and English who are proud of the traditions and inheritance of their locality and their country. We seek balanced and responsible citizens who respect the rights of other individuals and who are comfortable with themselves. They will have respect for their minds, their souls and their bodies and they will have wide horizons and a curiosity for new information. They will have the necessary skills to take advantage of the challenge of the future in the work place and in society and they will wish to continue to grow and develop as lifelong learners and the world's citizens.

At Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg we aim to provide every child with opportunities to experience excellent academic, emotional and social education.

Three aims of positive relationships are:

1. that staff and pupils are ready to learn
2. respect all students, staff and the environment.
3. pride in ourselves and our environment.

These will be achieved by promoting positive relationships between:
Pupil and pupil
Parent and Pupil
Pupil and Staff
Parent/Carer and staff
Staff and staff
School staff and senior leaders
Pupils, Staff, and the wider community

At Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, we will adopt a **RESTORATIVE APPROACH** to managing relationships.

What does 'a restorative approach' mean?

1. Being restorative means that we respond to challenging behaviour in a calm and considered manner.
2. Being restorative means that we ask every pupil and staff member to be responsible for their own behaviour and accept the consequences of their actions.
3. Being restorative means that we value strong, positive relationships between staff and pupils, pupils and their peers and parents/carers. We will always endeavour to repair damaged relationships through meaningful conversations and so on.
4. Being restorative means that we continue with our high standards in a way that restores and maintains the relationships that exist between the individuals.

Work to prevent poor behaviours or any prejudice-related incidents will be embedded in the curriculum as well as during specific weeks e.g. anti bullying week.

Creating an environment that encourages positive behaviour and addresses the root causes of unacceptable behaviour, by following our action steps and talking to parents /carers, and referring to our school values, will help create an inclusive and caring environment where learners feel safe and ready to learn.

CURRICULUM FOR WALES

Curriculum for Wales identifies 4 purposes for the curriculum. It recommends that the entirety of the school curriculum should be designed to help all children and young people to become:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world, ready to be citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

At Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, to achieve the above, we will:

- ensure that pupils know that they can discuss issues with a member of staff
- ensure that we listen to all pupils
- ensure that we respond appropriately to pupils who raise concerns.

At Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg we will:

- create an environment which encourages positive behaviour and addresses the root causes of unacceptable behaviour – this will help create an inclusive and engaging environment where learners feel safe and are ready to learn
- teach children and train staff about respect, positive behaviour, stereotypes and addressing prejudice
- provide staff training and development and training in the art of good listening, dialogue, empathy and understanding
- we will try our best not to place the pupils in situations that they are unable to manage. We will try to ensure that our response to their distress and often behaviours that challenge is supportive and focusses on how best to support

- build confidence to enable unacceptable language to be challenged and addressed
- ensure effective supervision between lessons with safe places provided for vulnerable learners during these times
- communicate a clear message of positive behaviour, kindness, loyalty and team spirit.

At Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg we will:

- Regularly seek the views of children, young people and staff about their relationships both in and out of school
- ensure that our positive relationships policy reflect a trauma-based approach (TISUK) and that our behaviour strategies are development and trauma based. We do not operate a 'zero tolerance' response and recognise that adjustments will be necessary due to the individual's personal nature and needs, however, we have high expectations of behaviour for all and support is offered to those who have difficulty in meeting those expectations.
- ensure that pupils know how to express and report concerns and concerns that affect them at home or at school
- ensure that all pupils are aware of the range of sanctions that may be imposed against those who take part in any activities that damage relationships
- involve pupils in campaigns promoting positive relationships in schools
- publicise details of helplines and useful websites.

Cytunwyd ar y polisi hwn gan y Bwrdd Llywodraethol ym mis Mehefin 2022 a'i roi ar waith ym mis Mehefin 2022. Caiff ei adolygu ym mis Gorffennaf 2023.

This policy was agreed by the Governing Body in June 2022 and implemented in June 2022. It will be reviewed in July 2023.

Llofnod/Signature…….....
Cadeirydd y Llywodraethwyr/Chair of Governors

Llofnod …….....
Y Pennaeth/Headteacher

Paratowyd gan/Compiled by:	Addasiad Rhif: 5 Revision Number: 5
Cymeradwy gan/Approved by: Y Corff Llywodraethol/Governing Body	Dyddiad yr Addasiad: Gorfennaf 2023 Revision date: July 2023